

P-05-941: Cylch gwaith bioamrywiaeth ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Chwefror 2020
Petitions Committee | 25 February 2020

Cyfeirnod: RS20/11539-4

Rhif y ddeiseb: P-05-941

Teitl y ddeiseb: Cylch gwaith bioamrywiaeth ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru

Geiriad y ddeiseb: Mae Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC) yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynnwys 'Bioamrywiaeth' yn benodol wrth osod eu cylch gwaith strategol i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2020/2021 ac yn y dyfodol.

Yn benodol dylai'r cylch gwaith gynnwys:

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn ganolog i'w bwrpas craidd wrth geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy:

1. Gweithio tuag at welliant cyffredinol yn statws bywyd gwyllt Cymru ac atal neu o leiaf leihau'r risg o unrhyw ddifodiant pellach o ganlyniad i weithgareddau dynol.
2. Sefydlu ardaloedd cynaliadwy, mwy a llai tameidiog ar gyfer bywyd gwyllt, a ddylai ganolbwyntio i ddechrau ar gydgyrnhoi ac ymestyn Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol presennol ac ardaloedd gwarchodedig eraill, ac yna sefydlu ardaloedd newydd.
3. Blaenoriaethu'r angen i gael statws ffafriol neu adferol ar gyfer nodweddion cadwraeth ar bob safle cadwraeth natur statudol (AGA, ACA, SoDdGA a GNG).
4. Datblygu a gwella rhwydwaith effeithiol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n ddigonol i sicrhau bod bywyd morol a physgodfeydd cynaliadwy yn cael eu diogelu'n ddigonol o amgylch Cymru.
5. Sicrhau bod mwy o bobl yn mynd ati i gymryd rhan mewn materion bioamrywiaeth, a'u bod yn ymwybodol o arwyddocâd bioamrywiaeth i'w hiechyd a'u lles.

Ers cychwyn Cyfoeth Naturiol Cymru chwe blynedd yn ôl, mae dirywiad cyson ac amlwg wedi bod yn ymrwymiad Cymru tuag at fioamrywiaeth a chadwraeth natur.



Mae Cymru wedi'i disgrifio fel un o'r ardaloedd mwyaf disbyddedig o ran natur yn y byd sydd eisoes wedi achosi difodiant llawer o'i rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid brodorol. Mae nifer fawr o'r rhywogaethau sydd yn dal i fodoli bellach yn brin neu o dan fygythiad, gan oroesi mewn rhannau o'u cynefinoedd sydd yn aml yn ynysig.

Mae INCC yn credu bod pobl Cymru a'r bywyd gwyllt y maen nhw'n rhannu eu cymuned ag ef yn haeddu gwell. Mae angen mwy o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru os yw Cymru am fod ag unrhyw obaith o wyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac atal difodiant bywyd gwyllt pellach rhag digwydd.

Ffordd effeithiol o ddangos yr ymrwymiad hwn tuag at wyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth fyddai sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys 'Bioamrywiaeth' yn benodol fel rhan o gylch gwaith strategol Cyfoeth Naturiol Cymru.

O ystyried y colledion parhaus i fywyd gwyllt a'r hyn a welir fel diffyg blaenoriaethu tuag at gadwraeth natur yn Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n amlwg na all 'Bioamrywiaeth' aros fel rhan ymhlyg o swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid ei wneud yn benodol a rhoi blaenoriaeth briodol iddo.

Os na fydd unrhyw newid, mae difodiant bywyd gwyllt yng Nghymru yn y dyfodol yn anochel

1. Cefndir

1.1. Tueddiadau ym maes bioamrywiaeth

Rhoddir diffiniad o fioamrywiaeth yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* ('Deddf yr Amgylchedd'), sef "amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem".

Methodd y DU *darged y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Biolegol* i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2010. Ym mis Hydref 2010, yn 10fed Cynhadledd y Partïon i'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth Biolegol, mabwysiadodd y Partïon ddogfen newydd y '*Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020*', ynghyd ag 20 o '*dargedau Aichi*'. Yn 2019, dangosodd *adolygiad* o weithredoedd y DU ar y targedau Aichi nad oedd cynnydd ar rai targedau yn digwydd ar raddfa ddigonol. Felly mae'r DU hefyd yn debygol o fethu rhai o'r targedau Aichi.

Mae *Cyfoeth Naturiol Cymru* (CNC), yn *Adroddiad interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2019*, yn dyfynnu *Adroddiad Cyflwr Natur y DU 2019*; "since rigorous

scientific monitoring began in the 1970s, of the 3,902 species assessed in Wales, 73 have been lost". Mae hefyd yn darparu'r ffeithlun a ganlyn:



Ffynhonnell: Adroddiad Cyflwr Natur 2019 a ddyfynnir yn yr Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2019

Mae [papur bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru](#) (PDF 3.2MB), dyddiedig 21 Tachwedd 2019, yn rhoi'r cyd-destun a ganlyn:

...currently no ecosystem in Wales has been assessed as having good resilience and many will not be adaptable enough to be [sic] deal with pressures including climate change and the impact of invasive non-native species (INNS). Biodiversity continues to decline. The extent of some habitats has declined significantly and connectivity between habitats has reduced. Ecosystem condition, based on designated site features, is mixed, but 55% of species and 75% habitat features on [Natura 2000 sites](#) have been found to be in unfavourable condition.

1.2. Cefndir CNC

Sefydlwyd CNC ar 1 Ebrill 2013, pan gyfunwyd cyfrifoldebau, asedau a staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru.

Ynghyd â'i amrywiol gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol, CNC yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion ynghylch adnoddau naturiol. Mae CNC, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn atebol i Weinidogion Cymru drwy'r Gweinidog Nawdd (Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar hyn o bryd, sef Lesley Griffiths) ac yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau perthnasol y Cynulliad.

1.2.a. Diben cyffredinol CNC

Mae adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ail-ffurfio diben cyffredinol CNC i fynd ar drywydd gwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) yng Nghymru a chymhwyso egwyddorion SMNR.

Caiff egwyddorion SMNR eu cyflwyno yn adran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd ac maent yn helpu i arwain ac ategu'r ffordd y dylid dehongli SMNR. Maent yn cynnwys (ychwanegwyd pwyslais):

ystyried cydnerthedd ecosystemau ac yn benodol, yr agweddau a ganlyn—

- (i) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (ii) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (iii) graddfa ecosystemau;
- (iv) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
- (v) gallu ecosystemau i addasu.

Fodd bynnag, nid yw diffiniad ac amcan SMNR yn Neddf yr Amgylchedd yn cyfeirio'n benodol at "fioamrywiaeth".

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dogfen ganllaw ynghylch diben CNC o dan Ddeddf yr Amgylchedd, sy'n nodi:

Mae gweithredu ar fioamrywiaeth wedi'i ymgorffori mewn fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried fel elfen hollbwysig sy'n cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau.

Mae'r ddogfen ganllaw yn nodi, yn benodol, bod gweithredu ym maes bioamrywiaeth wedi'i ymgorffori yn:

... egwyddorion SMNR (lle mae rhinweddau cydnerthedd ecosystem yn cynnwys bioamrywiaeth) a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol sy'n nodi'r gofyniad am rwydweithiau ecolegol gwydn fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

Mae gwybodaeth am y Polisi Adnoddau Naturiol wedi'i chynnwys yn adran 2 o'r briff hwn.

1.2.b. Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

Mae dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru ynghylch diben CNC hefyd yn cyfeirio at adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd, sydd (ychwanegwyd pwyslais):

yn cyflwyno **dyletswydd gryfach** ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, o safbwynt **bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau**.

Mae adran 6 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys CNC, i:

... geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd, rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un o Weinidogion y Goron neu unrhyw un o adrannau'r Llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Mae canllawiau adrodd Llywodraeth Cymru (PDF 444 KB) ar gyfer adran 6 yn nodi:

... ar gyfer CNC, mae gweithredu o blaid bioamrywiaeth yn rhan annatod o'i ofynion statudol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, felly bydd adrodd ar hynny yn ei adroddiad blynyddol yn bodloni'r gofyniad ar gyfer adroddiad adran 6.

1.3. Llythyr cylch gwaith CNC

Cafodd CNC ei lythyr cylch gwaith ar gyfer 2019-20 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2019. Yn y llythyr, nodir cylch gwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2019-20.

Mae'r llythyr yn ailadrodd mai diben craidd CNC yw 'mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy'. **Nid yw'n cyfeirio'n benodol at 'bioamrywiaeth'.**

Mae'r llythyr yn tynnu sylw at ddatblygiad Datganiadau Ardal fel blaenoriaeth, a bod angen eu llunio erbyn mis Mawrth 2020. Mae Datganiadau Ardal yn ofynnol o

dan Ddeddf yr Amgylchedd a rhaid iddynt nodi blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer SMNR. Rhaid i CNC gymryd pob cam rhesymol i weithredu Datganiad Ardal, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Mae llythyr cylch gwaith CNC hefyd yn tynnu sylw at ddatblygu'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, sydd hefyd yn un o ofynion Deddf yr Amgylchedd. Mae'r adroddiad hwn yn asesiad o sefyllfa adnoddau naturiol Cymru a'r hyn sy'n digwydd i'r adnoddau hynny. Mae'n trafod i ba raddau y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Cafodd adroddiad interim ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020.

Yn ogystal â hyn, mae'r blaenoriaethau pellach a nodir yn y llythyr cylch gwaith yn cynnwys:

- Paratoi ar gyfer ymadael â'r UE;
- Ynni adnewyddadwy – cynhyrchu a buddsoddi mewn technoleg;
- Atal llifogydd, addasu arfordirol a'r newid yn yr hinsawdd;
- Rheoli, rheoleiddio a chreu coetir;
- Gwastraff;
- Brexit a'n Tir;
- Llygredd amaethyddol a gorfodi;
- Bil Aer Glân newydd; a
- Mynediad i fannau gwyrdd.

Fel y trafodwyd, nid yw 'bioamrywiaeth' wedi'i restru'n benodol.

1.4. Gweithredu gan CNC ym maes bioamrywiaeth

1.4.a. Adroddiad Natur Hanfodol

Natur hanfodol: Gwneud y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth y bobl a'r lleoedd yng Nghymru yw cyfeiriad strategol CNC ar gyfer bioamrywiaeth hyd at 2022; mae'n ddatganiad o'i flaenoriaethau, cyfeiriad ei waith a ffyrdd o weithio. Dywed yr adroddiad y bydd angen i'r meysydd gweithredu y mae'n eu cynnig "gael eu hymgorffori i'n prosesau cynllunio busnes blynyddol. Byddant yn cael eu trosi'n rhaglenni gwaith blynyddol manylach a flaenoriaethwyd, gydag adnoddau wedi'u clustnodi a chanlyniadau, cyfrifoldebau a cherrig milltir a ddiffiniwyd yn glir."

1.4.b. Cynllun Busnes CNC

Mae Cynllun Busnes CNC ar gyfer 2019-2020 yn rhestru “gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth” fel blaenoriaeth ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae'n nodi erbyn diwedd 2019/20 y bydd wedi:

- Cwblhau archwiliad o'r graddau rydym yn sicrhau bod bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn cael eu hystyried yn ystod cyfnodau cynnar ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau, ac yn ein rhaglenni, cyngor, ein gwaith trwyddedu a rheoleiddio, ein gwaith i reoli tir ac asedau, a'n comisiynu a chaffael.
- Buddsoddi £0.8 miliwn ychwanegol er mwyn rhoi Natur Hanfodol ar waith
- Datblygu ein dull monitro safleoedd gwarchodedig ar gyfer y dyfodol, gydag asesiad cychwynnol o'r risg na fydd safleoedd yn eu cyflwr dymunol.
- Cwblhau rhestr adran saith o rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd pennaf.
- Trawsnewid ein systemau TGCh ar gyfer caniatadau/cydsyniadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd arbennig, gan gynnwys lansio offeryn cydweithredol i rannu gwybodaeth ar fesurau rheoli safleoedd dynodedig.
- Rhoi cynlluniau gweithredu gwella boddlogelwch ar waith.
- Adrodd ynghylch ein gwaith i gyflawni dyletswydd adran chwech Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae dangosfwrdd Cynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru yn olrhain cynnydd nifer o fesurau. Mae'n defnyddio system goleuadau traffig i ddangos cynnydd y mesurau. Mae dangosfwrdd 2019-2020, fel y nodir ym mhapur bwrdd CNC (PDF 3.2MB) (21 Tachwedd 2019), yn rhoi diweddariad ar berfformiad hyd at Chwarter 2. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys mesur “gweithredu 'Natur Hanfodol' - adfer, creu a gwella cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth”.

At ei gilydd, mae'r papur yn nodi, ar gyfer y mesur hwn, bod CNC (ychwanegwyd pwyslais):

...**reporting at amber**. While we are on target with the protected sites annual programme and National Nature Reserves project delivery work and we are working across our Operations, Enabling Services and Environment Policy and Planning teams on developing an integrated delivery programme for our Vital Nature commitments, **we are reporting Amber overall because of delays associated with the biodiversity / ecosystems resilience and biosecurity measures.**

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Fel yr amlygwyd, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lunio llythyr cylch gwaith CNC. Gan fod CNC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid iddo (gweler yr adran ynghylch craffu ar y gyllideb). Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio:

- Dogfen ganllaw ar ddiben CNC o dan Ddeddf yr Amgylchedd; a
- Chanllawiau adrodd (PDF 444 KB) ar gyfer cyrff cyhoeddus o dan y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd).

Y Polisi Adnoddau Naturiol

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Polisi [Cenedlaethol] Adnoddau Naturiol (NRP) o dan Ddeddf yr Amgylchedd. Cafodd yr NRP cyntaf ei gyhoeddi ym mis Awst 2017. Lluniwyd yr NRP i arwain sut mae CNC yn creu Datganiadau Ardal.

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ymchwiliad byr i'r NRP ar ôl ei gyhoeddi ac ysgrifennodd at Lywodraeth Cymru ynglŷn â'i ganfyddiadau ar 16 Hydref 2017. Mae'r llythyr yn nodi:

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn pryderu bod y Polisi Adnoddau Naturiol yn uchelgeisiol, gydag absenoldeb canlyniadau clir i sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. Mae diffyg eglurder ynghylch sut y bydd yr uchelgeisiau hynny yn cael eu trosi'n gamau gweithredu.

Y Cynllun Adfer Natur

Nod Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros ddirywiad bioamrywiaeth. Mae'n nodi sut y bydd Cymru yn mynd i'r

afael ag ymrwymïadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol.

Fe wnaeth tystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch Bioamrywiaeth – cynllun nwyddau cyhoeddus (11 Rhagfyr 2018 i 18 Ionawr 2019) amlygu rhai pryderon am y Cynllun Adfer Natur. Er enghraifft, dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru: “as it stands currently, the NRAP is neither ambitious nor focused enough on implementation to have a real impact and ensure the recovery of Wales’ marine and terrestrial environments”.

Rhestrau Adran 7

O dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf at ddibenion cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Cyn cyhoeddi'r rhestr hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â CNC ynghylch yr organebau byw neu'r mathau o gynefinoedd sydd i'w cynnwys ar y rhestr. Rhaid iddo hefyd gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Lluniodd Llywodraeth Cymru restrau interim rhywogaethau a chynefinoedd o dan Adran 7. Mae'r rhain nodi: “mae'r rhestr dros dro, sydd yn union yr un fath a'r rhestr flaenorol o dan Adran 42 o Ddeddf NERC, yn cael ei hadolygu mewn ymgynghoriad â CNC”. Dechreuodd y gwaith yn 2016 ar adolygu'r rhestr, ond nid oes rhestr wedi'i diweddarau wedi cael ei chyhoeddi.

3. Camau gweithredu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

3.1. Craffu blynyddol ar CNC

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yr Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) yn gwneud gwaith craffu blynyddol ar CNC. Yn dilyn ei sesiwn graffu flynyddol ddiwethaf ar 13 Chwefror 2019, ysgrifennodd (722 MB) CNC at y Cadeirydd gyda gwybodaeth bellach. O bwys arbennig i'r ddeiseb hon, nododd y llythyr (ychwanegwyd pwyslais):

the reduction in Grant in Aid has meant we have had to reduce work across a range of services including... **reduction of monitoring of terrestrial and marine biodiversity...**

Where possible we have changed our delivery or used evidence to help our decisions, so that we are mitigating the impact of reducing these services but we are aware that even so there will be **a lower level impact that will become more visible in the longer term.**

In paragraph 54 of our written evidence we indicate that additional money has been released to support the new ways of working in our operational teams. In particular additional resource is targeting the work of teams leading engagement with PSBs, implementing the Sustainable Management of Natural Resources and biodiversity enhancement. In addition, our **Board has committed an additional £800,000 over the next financial year to support biodiversity outcomes plus £2 million through our grants programme.**

3.2. Craffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru

Fe wnaeth Clare Pillman, Prif Weithredwr CNC, ysgrifennu at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 12 Hydref 2018 fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2019-2020. Fe wnaeth y llythyr (PDF 829MB) nodi (ychwanegwyd pwyslais):

Mae'r toriadau hyn i gyllid wedi dod ar adeg pan fyddwn yn ymdrechu i lawn weithredu egwyddorion a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. **Bydd ein huchelgais yn cael ei gyfyngu**, ac rydym yn cynllunio i **gyflwyno achos busnes** yn gynnar yn y flwyddyn galendr nesaf er mwyn **ariannu effaith y ddeddfwriaeth hon yn iawn o 2020-21** o fewn ein llinell sylfaen.

Roedd casgliadau adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar gyllideb ddrafft 2019-202 yn cynnwys:

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno achos busnes ar ddechrau 2019 i "ariannu...yn iawn" ei weithrediad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn 2020-21. Mae hyn yn awgrymu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu na fydd ei gyllid yn ddigonol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn y dyfodol agos.

Rydym yn falch bod swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd i gynyddu incwm Cyfoeth Naturiol Cymru ac i ddarparu sicrwydd tymor hwy ynghylch cyllid. Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet y bydd unrhyw ofynion pellach ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am gynnydd i gyllid.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar 15 Ionawr 2019. Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru sylw ar y pwyntiau penodol hyn yn ei hymateb.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar gyllideb ddrafft 2020-2021 ar 31 Ionawr 2020. O ran cyllid CNC, mae'n nodi:

Eleni, bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyllideb "llinell wastad", sy'n ostyngiad mewn termau real.

Dylai'r setliad cyllid hwn gael ei weld yng nghyd-destun gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn cyllid a chynnydd yn ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau.

3.3. Y Cyfarfod Llawn

Ar 27 Mawrth 2019, gofynnwyd i'r Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig am sylw yn dilyn cyhoeddi llythyr gan naw aelod o staff sydd wedi ymddeol ac ymddiswyddo o CNC yn mynegi eu pryderon am ddyfodol Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru.

Dywedodd y Gweinidog:

I was copied in to the correspondence, and I think yesterday I wrote back to the man who did the original letter. I did note the concerns; I wouldn't say I share them. However, when anybody writes to me with concerns of that nature, I always ask my officials to look into them on my behalf initially, so they will be discussing the points that he raised with NRW. And certainly, if there are any concerns that I think I need to address, I will raise it with the chair and chief executive of NRW at my regular monthly meetings. Obviously, NRW do manage our NNRs. I think, again, they're very transparent in how they approach the management of them. I also think they set out very clearly in their strategies how they can improve the management of them. So, I will be keeping a very close eye, and if I feel I need to take steps, I will do so.

Cafodd ymateb gan CNC i'r erthygl ei ddyfynnu mewn **erthygl newyddion**:

Looking after them [NNRs] remains a vital part of what we do...what is changing is the way we manage our NNRs with the resources available in the context of our purpose as an organisation – this is unavoidable...We cannot prioritise NNRs over flood risk management or industrial regulation or timber production – or the other way around. They are all important and we must manage them all as best we can.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.